Ifan y glaw

Trosolwg

Mae diwrnodau glawog yn gallu bod yr un mor ddifyr â diwrnodau heulog braf. Gall eich plant gael llawer o hwyl wrth iddynt sblasio a dal diferion glaw ac wrth iddynt archwilio beth sy'n gwlychu a beth sy'n aros yn sych yn y glaw.



Gweithgareddau

- Neidio mewn pyllau – pwy all wneud y sblash mwyaf?
- Rhowch ychydig o ewyn ymolchi mewn pwll – defnyddiwch frwsh llawr i frwsio'r swigod.
- Rhowch ychydig o baent sialc mewn pyllau – defnyddiwch frwsh llawr i wneud marciau ac i archwilio ffyrdd o gymysgu lliwiau.
- Crëwch gerddorfa law – rhowch ffoil ar hambwrdd tyff, gyda gwahanol fathau o lestri a sosbenni. Gwrandewch ar y gwahanol synau y mae'r glaw yn eu gwneud.

Offer

- Cerddorfa law – ffoil, sosbenni, caeadon sosbenni, powlenni plastig
- Brwshys llawr i blant
- Paent sialc
- Ewyn ymolchi

Rhyngweithio allweddol

Modelwch ffyrdd o ddefnyddio iaith i ddisgrifio sut y mae'r glaw yn disgyn a disgrifio'r sŵn y mae'n ei wneud – arllwys, pistyllo, pitran-patran, diferu, sblasio. Modelwch ffyrdd o ddefnyddio'r synhwyrau i archwilio'r glaw, ac anogwch y plant i ddefnyddio eu synhwyrau nhw i wneud hynny.

Deilliannau dysgu

- Chwarae actif – deall y tywydd, deall effeithiau glaw
- Archwilio corfforol a synhwyraidd – gwisgo ar gyfer y glaw
- Datblygu sgiliau cyfathrebu – dysgu iaith i ddisgrifio'r glaw

Symud y dysgu yn ei flaen:

Archwilio llenwi cynwysyddion o wahanol faint i weld faint o law sy'n disgyn
Defnyddio dŵr glaw i ddyfrhau planhigion yn ystod diwrnodau heulog, er mwyn cysylltu'r thema hon â gofalu am blanhigion